# Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru

## Cwestiynau cyffredin i rieni yn yr ardaloedd peilot

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Beth yw'r cynnig gofal plant?** Bydd y cynnig gofal plant newydd yn darparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant am gyfnod o hyd at 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer plant 3 a 4 oed i rieni cymwys sy'n gweithio.

**Beth y mae'n ei olygu i mi fel rhiant?** Os oes gennych chi blentyn sy'n 3 neu'n 4 oed, mae'r hawl i gael addysg gynnar ar gael ichi nawr. Os ydych chi'n gweithio, gallech chi gael oriau ychwanegol o ofal plant wedi ei ariannu gan y Llywodraeth fel eich bod yn cael cyfanswm o 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar yr wythnos am gyfnod o hyd at 48 wythnos y flwyddyn, yn dibynnu ar ba bryd y bydd eich plentyn yn dathlu ei ben-blwydd.

**Beth yw addysg gynnar?** Mae hawl gan blentyn i gael **addysg gynnar** (Meithrin Cyfnod Sylfaen) o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 3 oed. Mae pob awdurdod lleol yn darparu isafswm o 10 awr o addysg gynnar yr wythnos, naill yn yr ysgol leol neu mewn lleoliad tebyg, fel lleoliad gofal dydd neu ganolfan gymunedol. Yn ystod y tymor ysgol, bydd yr addysg gynnar yma yn rhan o 30 awr y cynnig gofal plant. Yn ystod gwyliau ysgol, pan nad oes addysg gynnar, bydd y cynnig yn rhoi 30 awr o ofal plant am gyfnod o hyd at 9 wythnos. Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol eich helpu i ddarganfod darpariaeth cofrestredig sy'n ateb eich gofynion.

**Sut y byddaf yn gwybod a ydw i'n gymwys?** Mae rhieni plant 3 a 4 oed eisoes yn gallu manteisio ar yr hawl i gael addysg gynnar. Rydych chi'n gymwys i gael y gofal plant ychwanegol os ydych chi'n byw yn ardal y cynllun peilot, os oes gennych blentyn o fewn yr ystod oedran, a'ch bod yn ennill ar gyfartaledd isafswm wythnosol cyfwerth ag 16 awr ar isafswm cyflog cenedlaethol neu ar gyflog byw cenedlaethol neu fwy. Os yr ydych yn deulu unig riant bydd yn rhaid i chi fod mewn gwaith a mewn teulu dau riant, mae angen i'r ddau ohonoch fod yn gweithio. Os yr ydych yn hunangyflogedig neu ar gontract dim oriau bydd disgwyl ichi brofi hyn drwy gyflwyno dogfennau perthnasol. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gael rhagor o wybodaeth.

**Pa ardaloedd yw'r ardaloedd peilot?** Maent mewn ardaloedd dynodedig o Abertawe, Caerffili, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf, Sir y Fflint ac Ynys Môn. Bydd y cynllun ar gael ar draws Blaenau Gwent. Mae rhagor o wybodaeth am yr ardaloedd hyn i'w gweld ar wefannau'r awdurdodau lleol. Mae angen ardaloedd peilot arnom er mwyn profi'r cynnig i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio, ond bydd ar gael ledled Cymru yn y pen draw.

**Gai ddewis unrhyw ddarparwr gofal plant?** Gallwch, ar yr amod bod y darparwr hwnnw yn hapus i fod yn rhan o'r cynnig a'i fod wedi ei gofrestru ag AGGCC neu â'r Swyddfa Safonau mewn Addysg (yr arolygiaethau ar gyfer lleoliadau gofal plant). Gallant wneud hynny drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol. Gall y darparwyr gofal plant fod wedi eu lleoli y tu allan i'ch ardal beilot, y tu allan i'ch sir, neu fod yn Lloegr hyd yn oed, os ydych chi'n byw ar y ffin. Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran pa bryd y gallwch ddefnyddio'r oriau gofal plant ychwanegol, ond eich cyfrifoldeb chi yw dod o hyd i ddarparwr gofal plant sy'n addas i anghenion eich teulu chi. Gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich helpu drwy ddarparu gwybodaeth ar yr holl leoliadau gofal plant.

**Fydd angen imi dalu am unrhyw beth?** Mae'r Cynnig Gofal Plant yn cyllido uchafswm a chyfanswm o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant. Mae hyn ar gyfer yr addysg a'r gofal y mae'r gweithwyr proffesiynol yn y lleoliad yn eu darparu. Nid yw'n cynnwys bwyd, cludiant i leoliadau eraill ac oddi yno na gweithgareddau oddi ar y safle sy'n gofyn am dâl ychwanegol, a bydd eich darparwr yn gallu codi tâl arnoch chi am y pethau hyn. Bydd y costau cludiant yn ddibynnol ar leoliad eich cartref a pha mor bell y mae angen iddynt deithio, Ni ddylai darparwyr godi mwy na £7.50 y diwrnod am fwyd neu £4.75 am hanner diwrnod (yn cynnwys cinio).

**Oes rhaid imi ddefnyddio'r 30 awr yr wythnos yn llwyr?** Nac oes. Chi sy'n dewis faint o'r 30 awr yr ydych chi am eu defnyddio. Fodd bynnag, os na fyddwch chi'n defnyddio pob un o'r 30 awr mewn wythnos, ni allwch chi ddefnyddio'r oriau sy'n weddill mewn wythnos arall. Gallwch chi dalu am oriau ychwanegol eich hun yn seiliedig ar gontract preifat rhyngoch chi a'ch darparwr gofal plant.

**Sut ydw i'n gwneud cais?** Gallwch wneud cais am y cynnig, gan gynnwys y lle addysg gynnar y mae hawl gennych ei gael, drwy eich awdurdod lleol. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gael rhagor o wybodaeth.

# The Childcare Offer for Wales

## FAQ's for parents in pilot areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**What is the childcare offer?** The childcare offer will provide eligible working parents with 30 hours of a combination of early education and childcare for 3 and 4 year olds, for up to 48 weeks per year.

**What does it mean for me as a parent?** If you have a 3 or 4 year old you could access your early education entitlement now. If you're working, you could receive additional hours of government-funded childcare on top, so that you receive a combined total of 30 hours of childcare and early education per week for up to 48 weeks a year, depending on when your child has their birthday.

**What is early education?** Children are entitled to **early education** (Foundation Phase Nursery) from the term after their 3rd birthday. All local authorities provide a minimum of 10 hours per week early education, either in the local school or in a setting like a day-care setting or a community centre. During term time, this early education will be part of the childcare offer's 30 hours. During the school holidays, when there is no early education, the offer will provide 30 hours a week of childcare, for up to 9 weeks. Your local Family Information Service will be able to help you find a registered provider that offers the service that meets your needs.

**How will I know if I'm eligible?** All parents of 3 and 4 year olds can already access the early education entitlement. You are eligible to receive the additional childcare if you live within a pilot areas, have a child within the age range and earn on average a weekly minimum equivalent of 16 hours at national minimum wage (NMW) or national living wage (NLW) or more. If you are in a lone parent family you need to be working and if you are in a two parent family you both need to be working. If you are self-employed or on a zero hours contract you need to be able to prove this by providing the relevant documents. You can contact your Family Information Service for more information.

**Where are the pilot areas?** They are in specific areas of Anglesey, Caerphilly, Flintshire, Gwynedd, Rhondda Cynon Taf and Swansea. It will be available in all of Blaenau Gwent. More information on these areas is available on the local authority websites. We need pilots to test the offer to make sure it works, but it will eventually be available across Wales.

**Can I choose any childcare provider?** Yes, as long as they are willing to be part of the offer and they are registered with CSSIW or OFSTED (the inspectorates for childcare settings). They can do this by getting in touch with your local Family Information Service. Childcare providers can be outside of your pilot area, your county or even in England if you live on the border. There is no restriction on when you can use the additional childcare hours of the offer but it is up to you to find a childcare provider that suits your families' needs. The Family Information Service can help you by providing information on all the childcare settings.

**Will I have to pay for anything?** The Childcare Offer funds a maximum and total of 30 hours of early education and childcare. This is for the education and care the professionals within the setting provides. It does not include food, transport to and from other settings or off-site activities that incur an extra charge and providers will be able to charge you for these. The cost of transport will depend on where you live and how far they have to travel. Providers should not charge more than £7.50 per day for food or £4.75 for half a day (including lunch).

**Do I have to use all 30 hours per week?** No. You can chose how much of the 30 hours you use. However, if you do not use all of yours 30 hours in one week, you can not use them in another week. You can pay for additional hours yourself based on a private contract between you and your childcare provider.

**How do I apply?** You can apply for the offer, including your early education entitlement place, through your local authority. Contact your local Family Information Service for more information.